**Huw Lewis AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/HL/0676/15

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

15 Gorffennaf 2015

Annwyl Ann,

**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Diweddariad ar y cynlluniau ar gyfer trefniadau cychwyn a phontio i sefydlu Cymwysterau Cymru**

Yn ystod ystyriaeth Cam 2 o Fil Cymwysterau Cymru gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 30 Ebrill, cynigiais i ddarparu rhagor o wybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor am y trefniadau pontio ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru wrth iddynt fynd rhagddynt.

Bydd fy swyddogion yn ysgrifennu'n fuan at y Cyrff Dyfarnu i'w hysbysu am y bwriad presennol mewn perthynas â'r trefniadau pontio sydd, yn fy marn i, yn angenrheidiol neu'n briodol i sicrhau parhad a sefydlogrwydd. Felly, hoffwn achub ar y cyfle hwn i roi diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ar y trefniadau hyn a'r trefniadau cychwyn.

**Y trefniadau cychwyn a phontio**

Mae fy swyddogion yn gweithio tuag at gychwyn darpariaethau Bil Cymwysterau Cymru yn y drefn ganlynol:

- y rheini a gyflwynir yn sgil Cydsyniad Brenhinol - mae'r Bil eisoes yn darparu ar gyfer hyn (adran 60(1));
- y rheini sy'n gysylltiedig â sefydlu Cymwysterau Cymru ar ôl Cydsyniad Brenhinol, er mwyn gallu gwneud y gwaith paratoi angenrheidiol cyn y caiff ei weithredu'n llawn;
- y rheini a fydd yn cychwyn swyddogaethau rheoleiddio Cymwysterau Cymru ar 21 Medi 2015. Bydd rheoliadau ar gosbau ariannol yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach.

Rwyf eisoes wedi penodi Bwrdd Cysgodol Cymwysterau Cymru ac rwy'n bwriadu penodi'r aelodau hynny i Fwrdd cyntaf Cymwysterau Cymru pan fyddaf yn gallu gwneud hynny. Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio gyda'r aelodau hyn i ddatblygu trefniadau a fydd yn galluogi Cymwysterau Cymru i wneud y penderfyniadau gweithredol a rheoleiddio angenrheidiol yn ystod ei fisoedd cyntaf.

Rwyf hefyd yn bwriadu penodi Philip Blaker, sy'n Brif Weithredwr (Dros Dro) ar hyn o bryd, yn Brif Swyddog Gweithredol cyntaf Cymwysterau Cymru. Caiff penodiadau dilynol eu gwneud gan Gymwysterau Cymru ei hun.

Mae staff yn cael eu recriwtio ar hyn o bryd, gyda 34 o swyddi eisoes wedi'u cynnig a chyfweliadau'n cael eu cynnal ar gyfer 30 swydd arall. Disgwylir i ddeg o swyddi eraill gael eu llenwi yn nes ymlaen eleni fel bod holl staff Cymwysterau Cymru yn eu lle, sef 74 o staff i gyd. Hefyd, mae'r brif swyddfa wedi'u lesio a'u dodrefnu. Mae'r seilwaith TGCh bron wedi'i gwblhau ac offer TGCh wedi'u prynu. Prynwyd meddalwedd hefyd, sy'n cael eu ffurfweddu ar hyn o bryd, ac mae'r wefan yn cael ei chreu. Yn ogystal, mae staff wrthi'n nodi cofnodion data i'w copïo neu eu trosglwyddo, ac mae contractau wedi'u sefydlu ar gyfer nifer o'r gwasanaethau parhaus y bydd eu hangen ar y corff newydd.

Mae fy swyddogion yn gweithio ar drefniadau pontio, gan gynnwys y canlynol:

- Byddai corff dyfarnu a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd yn cael ei drin fel corff a gydnabyddir yn gyffredinol gan Gymwysterau Cymru a bydd cyrff dyfarnu'n cael cyfle (cyn i'r darpariaethau gael eu cychwyn) i nodi unrhyw gymwysterau neu ddisgrifiadau o gymwysterau nad ydynt am gael cydnabyddiaeth gyffredinol ar eu cyfer ar ôl trosglwyddo i Gymwysterau Cymru.
- Bydd y rhan fwyaf o'r cymwysterau a restrir fel rhai cymwys i gael cyllid cyhoeddus yn y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (DAQW) yn union cyn 21 Medi 2015, yn cael eu trin fel rhai a ddynodwyd gan Gymwysterau Cymru o 21 Medi 2015 nes y dyddiad adolygu cynharaf a nodwyd yn y gronfa neu 31 Awst 2018.
- Bydd y cymwysterau sy'n weddill yn y rhestr o'r rhai sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus yn union cyn 21 Medi 2015 yn cael eu trin fel cymwysterau a gymeradwywyd o 21 Medi 2015 nes y dyddiad adolygu a nodwyd yn y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru. Y rhain yw'r prif gymwysterau diwygiedig ar gyfer Cymru yn unig - TGAU, Safon Uwch Gyfrannol, Safon Uwch, Bagloriaeth Cymru a Sgiliau Hanfodol Cymru.
- Bydd y dogfennau rheoleiddiol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a'u cymhwyso, drwy amodau cydnabod, i gyrff dyfarnu a'u cymwysterau, yn cael eu trin fel amodau safonol ar gyfer cydnabyddiaeth o dan y Bil gyda rhai mân newidiadau, er enghraifft i adlewyrchu terminoleg y Bil.

Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu'r canlynol:

- bod modd parhau i ddiogelu dysgwyr;
- bod modd parhau i reoleiddio, gyda Chymwysterau Cymru'n gallu parhau â'r gweithgareddau rheoleiddio a wneir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd (gan gynnwys, er enghraifft, unrhyw archwiliadau neu adolygiadau);
- bod modd parhau i ddarparu cymwysterau a ariennir fel y rhestrir yn y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru;
- bod Cymwysterau Cymru'n gallu gweithredu yn y lle cyntaf, ac yn gyffredinol, drwy ddefnyddio dogfennau rheoleiddio sy'n bodoli eisoes;
- bod cyfnod i gyflwyno logos Cymwysterau Cymru ar dystysgrifau i ddysgwyr yn lle logos Llywodraeth Cymru.

Nid oes unrhyw beth yn y system reoleiddio bresennol sy'n cyfateb yn agos i'r rhestr o gymwysterau â blaenoriaeth (adran 13 y Bil). Bydd Gweinidogion Cymru a Chymwysterau Cymru yn penderfynu ar y rhestr gyntaf maes o law. Bydd fy swyddogion yn cydweithio â Chymwysterau Cymru ar y mater hwn pan fydd ei swyddogaethau rheoleiddio wedi cychwyn.

Hyderaf fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i aelodau'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills